

ADDYSG AC IEUENCTID

TAFLEN WYBODAETH YNGLYN Â CHYFLOGI PLANT

Arweiniad I Blant Oed Ysgol Deddf Plant a Ieuaint 1933 (Newidiedig)

Rhaid i blentyn oed ysgol sy'n byw yn Sir y Fflint ac am gael ei g/chyflogi wneud cais i gael

TRWYDDED GYFLOGAETH

Mae deddfau lleol yn pennu'r math o waith y gallai plant ei gyflawni a'u horiau gwaith. Mae rhagor o wybodaeth ynglyn â hyn a materion eraill i'w chael gan eich Awdurdod Addysg Lleol neu ffoniwch 01352 704073

Amgaeir ffurflen gais am drwydded gyflogaeth. Rhaid i'r rhieni/gwarcheidwaid a'r cyflogwr ei llenwi. **Mae'n rhaid i gyflogwr eich plentyn ddatgelu ichi yr Asesiad Risg a wnaed ynglyn ag unrhyw risg y gallai'ch plentyn ei gwynegu wrth gyflawni'r gwaith.** Anfonwch y ffurflen yn ôl at Addysg ac Ieuencid, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint, CH7 6ND.

Rhaid i blant fod yn **13 OED** neu fwy cyn cael eu cyflogi ar sail ran amser. Pa baech yn 13 (ond heb fod yn 15) ni ddylai'ch cyflogaeth fynd y tu hwnt i'e meini prawf a ganlyn:

Y Bore

Dim mwy na awr o waith rhwng 7.00a.m. a dechrau'r ysgol.

Min nos

Uchafswm o 2 awr rhwng yr amser y bydd yr ysgol yn gorffen a 7p.m. (Sylwch: Dim ond awr caiff plentyn weithio os bu'n gweithio cyn i'r ysgol ddechrau).

Dydd Sadwrn a Gwyliau Ysgol

5 awr y dydd ar y mwyaf (heb gynnwys cyfnodau ar gyfer pryd bwyd neu seibiant) tan 7.00pm.

Dydd Sul

2 awr ar y mwyaf tan 7.00pm.

Uchafswm Wythnosol

Yn ystod y tymor ysgol – 12 awr
Yn ystod y Gwyliau – 25 awr

Amodau Eraill

Dim mwy na 4 awr ddi-dor ar y tro

Pan fo'r plentyn sydd am ddechrau gweithio yn **15 OED A HEB GYRRAEDD OED YMADAEL Â'R YSGOL** (Hwn yw'r dydd Gwener olaf ym mis Mehefin yn ystod y flwyddyn ysgol pan fydd plentyn yn cyrraedd 16 oed), mae'r rheoliadau a ganlyn yn berthnasol:

Y Bore

Dim mwy na awr o waith rhwng 7.00a.m. a dechrau'r ysgol.

Min nos

Uchafswm o 2 awr rhwng yr amser y bydd yr ysgol yn gorffen a 7p.m. (Sylwch: Dim ond awr caiff plentyn weithio os bu'n gweithio cyn i'r ysgol ddechrau).

Dydd Sadwrn a Gwyliau Ysgol

8 awr y dydd ar y mwyaf (heb gynnwys cyfnodau ar gyfer pryd bwyd neu seibiant) tan 7.00pm.

Dydd Sul

2 awr ar y mwyaf tan 7.00pm.

Uchafswm Wythnosol

Yn ystod y tymor ysgol – 12 awr
Yn ystod y Gwyliau – 35 awr

Amodau Eraill

Dim mwy na 4 awr ddi-dor ar y tro

Dylai pob plentyn beidio gweithio am o leiaf pythefnos yn olynol adeg gwyliau ysgol yn ystod y flwyddyn.